# Cofnodion

## Pwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Iau, 20 Rhagfyr 2018 |
| Amser: | 10.00 am |
| Bresennol: | Cynghorwyr J Guy (Cadeirydd), G Berry, C Evans, M Evans, C Ferris, M Spencer and K Thomas<br><br>Daniel Cooke (Cynghorydd Craffu), Liz Blayney (Rheolwr Craffu a Llywodraethu), Will Godfrey (Chief Executive), James Harris (Strategic Director - People), Beverly Owen (Chief Executive) and Rhys Cornwall (Strategic Director - Transformation and Corporate Centre) |
| Yn bresennol: | D Wilcox |
| Ymddiheuriadau: | Cynghorwyr M Al-Nuaimi and L Lacey |

1 **Datganiadau o Fuddiant**

Datganodd y Cynghorydd Councillor K Thomas ddiddordeb yn eitem 3 Cynllun Corfforaethol – Argymhellion Monitro, oherwydd bod yr adroddiad yn cyfeirio at waith byrddau a wneir gan
GAVO.

2 **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2018**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2018 fel rhai cywir.

3 **Cynllun Corfforaethol - Monitro Argymhellion**

Yn bresennol:
- Cynghorydd Debbie Wilcox – Arweinydd y Cyngor
- Will Godfrey – Prif Weithredwr
- Bev Owen – Cyfarwyddwr Strategol – Lle a Chorfforaethol
- James Harris – Cyfarwyddwr Strategol – Pobl

Rhoes yr Arweinydd drosolwg o'r broses Graffu a phwysigrwydd holi ac ateb mewn Craffu. Yr oedd gofyniad yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i'r Cyngor fod â chynllun tymor-hir, a'i fod yn cyflwyno ar y nodau llesiant. Yn 2017, cafwyd cynllun corfforaeth 5-mlynedd oedd yn gosod allan y weledigaeth a'r ymrwymiad i'r Cyngor oll, gyda chyfrifoldeb i wneud i'r cynllun weithio ar draws pob sector. Mae angen cynllunio a chyllidebu yn ofalus yn y cyfnod ariannol anodd hwn.

Gofynnodd yr Aelodau y canlynol:

- Gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth ar y cynigion neu'r prosiectau a fwriadwyd neu a anelwyd at ddwyn y gymuned leol yn Stow Hill i mewn, i adfywio'r gymuned a chwrdd â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

  Dywedodd yr Arweinydd na fwriadwyd eithrio unrhyw ardal o Gasnewydd, ond bod yn rhaid ystyried y cyfyngiadau ariannol ar y Cyngor. Byddai'r Cyfarwyddwr Strategol - Lle a Chorfforaethol yn ateb yn ôl i'r Pwyllgor am y cynigion penodol a'r prosiectau yn ardal Stow Hill. Dywedodd y Cyfarwyddwr wrth y Pwyllgor fod y pedwar Parth Buddsoddi Cymunedol wedi eu dewis ar sail eu safle ym Mynegai Aml-Amddifadedd Cymru. Bu Hwb Gwybodaeth CDC yn hanfodol o ran casglu a dadansoddi data i sicrhau bod y wybodaeth orau'n cael ei ddefnyddio i addasu'r Cynllun Corfforaethol.
- Holodd Aelod am yr Hybiau y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad, a lleisiodd bryder am nifer y gwahanol fathau o 'hwb' yng Nghasnewydd, a sut y gallai hyn beri dryswch i'r cyhoedd. Cytunodd yr Arweinydd, a gofyn i'r Swyddogion ystyried eu labelu yn wahanol i osgoi dryswch. Soniodd yr Arweinydd wrth y Pwyllgor am yr Hwb peilot a ddatblygir yn Ringland, gyda chyllid Llywodraeth Cymru.

- Yr oedd y Pwyllgor yn pryderu am 'agwedd plastr' at gyflwyno gwasanaethau. Yr esiampl a roddwyd oedd y bartneriaeth oedd yn dirywio gyda Linc Cymru. Cytunodd yr Arweinydd â theimladau'r Aelod, a thynnu sylw'r Pwyllgor at y ffaith fod yn rhaid i'r Cyngor weithio o fewn cyfyngiadau'r gyllideb. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid cyflwyno pob gwasanaeth yn y ffordd orau bosib gyda'r arian sydd ar gael.

- Esboniodd y Prif Weithredwr fod gweithio mewn partneriaeth wedi dod yn amlycach dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, a'i bod yn duedd fyddai'n parhau. Gwaith y swyddogion oedd gwerthuso'r dewisiadau i gael y canlyniadau gorau, waeth beth fyddai'r wleidyddiaeth, a chyflwyno hyn i'r Cynghorwyr.

- Holodd Aelod pam na chrybwyllwyd y Byrddau Partneriaeth a gweithio mewn partneriaeth yn y cyfoesiad monitro i'r Cynllun Corfforaethol. Atebodd yr Arweinydd trwy esbonio fod y Cynllun Corfforaethol yn ddogfen fyw ac y gellid cynnwys y wybodaeth.

- Gofynnodd y Pwyllgor am i gyfoesiadau yn y dyfodol fod yn fwy mesuradwy a chynnwys dangosyddion. Canfu'r Pwyllgor ei bod yn fwy anodd dal y Weithrediaeth i gyfrif gyda data ansoddol yn unig. Esboniodd y Prif Weithredwr fod Swyddogion yn gweithio ar Ddangosyddion Perfformiad fyddai'n caniatáu'r lefel hon o graffu, a rhoes wybod i'r Pwyllgor am y cyswllt rhwng y Cynllun Corfforaethol a'r Cynlluniau Gwasanaeth.

- Dywedodd y Pwyllgor iddynt wneud argymhellion yn 2017 na ddilynwyd yn y cyfoesiad monitro. Yr oedd hyn yn cynnwys sut y byddai'r Cynllun yn cael ei fonitro. Am na wnaed hyn, byddai'n anodd i Graffu fonitro llwyddiannau'r Cynllun. Yr oedd yr Aelodau am wybod pam y digwyddodd hyn?

  - Esboniodd yr Arweinydd mai cynllun strategol pum-mlynedd oedd hwn ac y gwnaed newidiadau sylweddol i'r Cynllun terfynol, ar sail argymhellion y Pwyllgor. Cyflwynir yr adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Craffu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Bydd gwybodaeth Perfformiad ac Ariannol yn dal i gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu trwy gydol y flwyddyn fel Cynlluniau Gwasanaeth. Dywedodd y Prif Weithredwr fod y Cynllun wedi newid, ac y datblygwyd pedwar Bwrdd Rhaglen i reoli'r pedair thema a amlinellir yn y Cynllun.

- Cytunodd y Pwyllgor y buasai'n fwy defnyddiol gael Dangosyddion Dechrau, Canol a Diwedd i amlygu cynnydd y Cyngor tuag at eu cwblhau. Yr enghraifft a roddwyd oedd statws baner Borffor i economi nos y ddinas. Dywedodd y Pwyllgor, heb wybodaeth ychwanegol megis ffigyrau ac amserlenni, na fyddai modd iddynt gyflawni eu swyddogaeth graffu.

- Yr oedd y Prif Weithredwr gyda phwyntiau'r Pwyllgor, gan ddweud fod y wybodaeth yn yr adroddiad. Defnyddiodd y Prif Weithredwr Bwynt 7 fel enghraifft lle mae'r golofn gynnydd yn rhoi mwy o fanylion er gwybodaeth.

- Gofynnodd Aelod am fwy o wybodaeth am sut y bwriada'r Cyngor gael y pedwar prentis ychwanegol i gyrraedd y ffigwr o bymtheg sydd yn yr adroddiad. Yr oedd yr Aelod hefyd eisiau gwybod a oedd partneriaid y Cyngor wedi ymrwymo i wneud yr un peth.

- Atgoffodd yr Arweinydd y Pwyllgor, fel yr Arweinydd Sgiliau ym Margen Ddinesig Caerdydd, ei bod yn falch o raglen peilot y Cyngor ar recriwtio, datblygu a chadw staff, yn enwedig meysydd lle mae galw uchel, fel TG a Digidol. Atgoffwyd y Pwyllgor y byddai'r cyfarfod yn monitro'r argymhellion a wnaed, nid monitro perfformiad.

- Gofynnodd Aelod am fwy o wybodaeth am sut yr oedd y Ganolfan Dreftadaeth yn cael ei hail-ddatblygu, ac a fyddai Llong Ganoloesol Casnewydd yn cael ei chynnwys? Esboniodd y Swyddogion y llwyddwyd i gael grant i'r Bont Gludo, sef prif ganolbwynt y ganolfan, ond ei bod yn bwysig adeiladu ar y llwyddiant hwn a pheidio â cholli golwg ar agweddau eraill o dreftadaeth y ddinas.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Arweinydd a'r swyddogion am fod yn bresennol.

**Casgliad – Sylwadau i'r Cabinet**

Nododd y Pwyllgor y Cynllun Corfforaethol – Argymhellion Monitro a chytuno i anfon y cofnodion ymlaen i'r Cabinet fel crynodeb o'r materion a godwyd.

Yr oedd y Pwyllgor am wneud y sylwadau a ganlyn i'r Cabinet:

1. Yr oedd y Pwyllgor yn derbyn fod y Cynllun Corfforaethol yn ddogfen oedd yn esblygu'n barhaus a'i bod yn cael ei monitro trwy graffu ariannol a pherfformiad ar y Cynlluniau Gwasanaeth, ond nid oedd modd ateb yr argymhellion hyd nes y cyhoeddir yr Adroddiad Blynyddol.

2. Gofynnodd y Pwyllgor i Adroddiad Blynyddol y Cynllun Corfforaethol fod yn glir a mesuradwy.

3. Bydd y Cyfarwyddwr Strategol – Lle yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor am brosiectau a chynigion sy'n canolbwyntio ar ward Stow Hill.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.15 am